Caffael gwybodaeth oddi wrth gyflogwyr, contractwyr, yr hunan-gyflogedig, cynlluniau pensiwn ac awdurdodau trwyddedu

Canllaw i rymoedd Swyddogion Awdurdodedig, a therfynau'r grymoedd hynny

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

Rhagarweiniad

1 Mae'r Côd Arfer hwn yn egluro grymoedd Swyddogion Awdurdodedig, rhychwant y grymoedd hynny, a chyfrifoldebau a hawliau y rheiny y medrwn ymofyn am wybodaeth oddi wrthynt, fel a ddiffinnir yn y ddeddfwriaeth. Dylai Swyddogion Awdurdodedig wneud eu hymholiadau yn unol â'r Côd Arfer hwn bob amser.

2 Dylai Swyddogion Awdurdodedig Canolfan Byd Gwaith ac Awdurdodau Lleol roi'r Côd Arfer hwn, os gofynnir amdano, i bobl y maent yn gofyn am wybodaeth oddi wrthynt, o dan adrannau 109B(1) (sy'n caniatáu i Swyddog Awdurdodedig wneud ymholiadau ysgrifenedig), neu 109C (sy'n caniatáu i Swyddog Awdurdodedig ymweld ag eiddo er mwyn caffael gwybodaeth), Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992. Mae'n esbonio grymoedd Canolfan Byd Gwaith ac Awdurdodau Lleol ac o'r oherwydd yn helpu Swyddogion Awdurdodedig yn eu hymholiadau. Dylai Swyddogion Awdurdodedig sy'n ymweld ag eiddo cyflogi ei gario gyda hwy, a dylid trefnu ei fod ar gael ym mhob Canolfan Byd Gwaith a Swyddfa Gyhoeddus Awdurdod Lleol i aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno edrych arno. Mae ar gael, yn ogystal, ar wefan yr AGP. Dylai Taflen Wybodaeth gael ei rhoi bob amser gydag ymholiadau ysgrifenedig ac ar ymweliadau oherwydd ei bod yn tynnu sylw i fodolaeth ac argaeledd y Côd Arfer.

3 Rhoir manylion yn awr ynghylch y rheidrwydd i ddarparu gwybodaeth yn adran 109B(3) Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992. Cyflwynwyd yr adran newydd hon gan atodlen 6 Deddf Cynnal Plant, Pensiynau a Nawdd Cymdeithasol 2000 ac mae'n disodli adrannau blaenorol Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 , a darpariaethau tebyg adran 33 Deddf Ceiswyr Gwaith 1995.

---

[1] Dylech nodi fod adran 110A yn datgan fod gan swyddogion sydd wedi'u hawdurdodi gan Awdurdodau Lleol yr hawl i arfer y grymoedd sydd gan Swyddogion Awdurdodedig yr AGP o dan adran 109B ac 109C er mwyn caffael gwybodaeth, ond yn unig ar gyfer gwneud ymchwiliadau yng nghyswllt budd-dâl tai a budd-dal treth gyngor. Felly, mae'r cyfeiriadau trwy gydol y Côd hwn at y darpariaethau y adrannau 109C ac 109C o baragraff 4 ymlaen.

4 Mae'r grymoedd hyn i'w defnyddio'n unig mewn perthynas ag ymholiadau ar gyfer y pwrpasau a ddisgrifir yn adran 109A(2) – (paragraff 9 isod), oddi wrth pobl/sefydliadau penodol, fel a ddiffinnir yn adran 109B(2) – (paragraff 12 isod) ac i holi unrhyw berson a ddarganfyddir ganddynt yn yr eiddo yr ymwelir ag ef.

5 Ni chaniateir i Swyddogion Awdurdodedig sy'n gweithredu o dan y Côd Arfer hwn i ddefnyddio'r grymoedd casglu gwybodaeth i'w defnyddio mewn perthynas ag ymholiadau oddi wrth sefydliadau eraill a restrir gan Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Twyll Nawdd Cymdeithasol 2001. Rhychwantir y grymoedd hynny gan Gôd Arfer ar wahân, statudol, sydd ar gael oddi wrth Y Llyfrfa Cyf.

Swyddogion Awdurdodedig

6 O dan adran 109A, gall yr Ysgrifennydd Gwladol awdurdodi swyddog o'r Canolfan Byd Gwaith, neu adran arall o'r llywodraeth, neu Awdurdod Lleol, i ddefnyddio grymoedd Adran 109B(1) ac 109C. Gall Awdurdodau Lleol hefyd awdurdodi eu swyddogion eu hunain o dan adran 110A at y pwrpasau a osodir allan yn y Côd hwn. Ni chaniateir i Swyddogion nad ydynt yn meddu ar yr awdurdodiad hwn wneud ymholiadau o dan y grymoedd hyn.

7 Mae'n ofynnol i Swyddogion Awdurdodedig ymddwyn yn rhesymol wrth ymofyn am wybodaeth oddi wrth unigolion a sefydliadau sy'n dal gwybodaeth angenrheidiol o safbwynt ymholiadau Canolfan Byd Gwaith ac Awdurdodau Lleol. Golyga hyn fod yn rhaid iddynt ymddwyn mewn dull addas o ystyried amgylchiadau'r achos, ac unrhyw gyflwyniadau y gellir eu gwneud yn ystod eu hymholiadau. Dylai unrhyw bethau a wneir gan Swyddogion Awdurdodedig fod yn rhai a ellid eu cyfiawnhau o flaen Llys Barn, neu gorff annibynnol arall.

8 Os nad ystyrid fod y pethau a wnaethpwyd, neu a arfaethwyd eu gwneud gan y Swyddog Awdurdodedig, yn rhesymol, dylid crybwyll hyn ar unwaith i'r Swyddog Awdurdodedig. Os na chaiff y pryderon a godwyd eu tawelu'n foddhaus gan hynny gellir cymhwyso'r weithdrefn gwyno a osodir allan y Côd hwn.

Beth y defnyddir y grymoedd hyn ar eu cyfer

9 Mae Swyddogion Awdurdodedig yn defnyddio grymoedd adran 109B(1) a 109C er mwyn caffael gwybodaeth oddi wrth pobl penodol, o dan 109A(2) a 110A(2), er mwyn:

- sefydlu os yw, neu os oedd yn gywir i dalu budd-dâl mewn achos unigol;
- ymchwilio i amgylchiadau damweiniau, neu anafiadau neu glefydau sy'n rhoi bod i geisiadau am fudd-dâl Anafiadau Diwydiannol neu fudd-dâl nawdd cymdeithasol perthnasol arall;
- sefydlu p'un ai yw darpariaethau'r ddeddfwriaeth Nawdd Cymdeithasol wedi cael, yn cael, neu yn debygol o gael eu torri, p'un ai gan berson penodol neu yn fwy cyffredinol; ac
- atal, darganfod a chaffael tystiolaeth o droseddau budd-dâl sy'n cael eu cyflawni.

10 Gall Swyddog Awdurdodedig ofyn am wybodaeth ynghylch unigolion a enwyd neu, mewn amgylchiadau penodol, enwau a manylion eraill ynghylch yr holl weithlu. Gellir gwneud ceisiadau am wybodaeth mewn ysgrifen neu yn ystod ymweliad. Mae hyn yn berthnasol yn ogystal i eiddo dan berchnogaeth, neu a ddefnyddir gan y Goron, ac unrhyw un a gyflogir gan, neu sydd yng ngwasanaeth y Goron, (er enghraifft Carcharau, Ysbytai ac ati).

11 Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r mathau o wybodaeth y gall Swyddog Awdurdodedig ofyn amdanynt, er enghraifft, oddi wrth gyflogwr:

- enwau gweithwyr;
- manylion cyflog;
- cyfnod cyflogaeth;
- oriau safonedig;
- amodau cyflogi (er enghraifft p'un ai yw rhywun yn weithiwr, yn isgontractwr neu'n hunan-gyflogedig);
- manylion banc (er enghraifft p'un ai y telir cyflogau i mewn i fanc, a'i leoliad);

- rhif staff/cyflogres;
- rhif Yswiriant Gwladol;
- cyfeiriad cartref;
- dyddiad geni;
- manylion nwyddau a ddarparir ar gyfer gwerthiannau personol;
- manylion yng nghyswllt trwyddedau a roddwyd; a
- manylion a dyddiadau taliadau pensiwn.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr a cheir amgylchiadau pryd bydd Swyddogion Awdurdodedig yn ymofyn am wybodaeth na restrwyd yn benodol yn y fan hon, sy'n berthnasol i'w hymholiadau, ac a bennir gan amgylchiadau'r ymchwiliad.

Ceisiadau ysgrifenedig am wybodaeth

12 Mae Adran 109B(1) yn caniatáu i Swyddog Awdurdodedig ysgrifennu (neu anfon e-bost) at unrhyw rhai o'r personau a ddiffinnir yn adran 109B(2), yn gofyn iddynt ddarparu gwybodaeth. Mae'r bobl hyn fel a ganlyn:

- unrhyw berson sydd yn, neu sydd wedi bod yn gyflogwr neu weithiwr;
- unrhyw berson sydd yn neu sydd wedi bod yn ennill cyflog fel rhywun hunan-gyflogedig;
- unrhyw berson sydd, o dan ddeddfwriaeth gyfredol, yn cael ei drin fel cyflogwr, gweithiwr neu rywun sy'n ennill cyflog hunan-gyflogedig;
- unrhyw berson sydd yn gweithredu, neu sydd wedi gweithredu unrhyw fusnes sy'n ymwneud â chyflenwi nwyddau i'w gwerthu i'r defnyddwyr terfynol gan unigolion nad ydynt yn rhedeg busnes manwerthu o eiddo manwerthu (er enghraifft cwmnïau catalog);
- unrhyw berson sydd yn gweithredu, neu sydd wedi gweithredu unrhyw fusnes sy'n ymwneud â chyflenwi nwyddau neu wasanaethau trwy ddefnyddio gwaith a wnaethpwyd neu wasanaethau a roddwyd gan bersonau yn hytrach na'i weithwyr ei hun (er enghraifft unigolion hunan-gyflogedig a delir ar sail comisiwn yn unig, ac ati, fel pobl sy'n gwerthu gwydro dwbl neu isgontractwyr);

- unrhyw berson sydd yn gweithredu, neu sydd wedi gweithredu, asiantaeth neu fusnes arall er mwyn cyflwyno neu gyflenwi, i eraill, personau sydd ar gael i wneud gwaith neu roi gwasanaethau (er enghraifft asiantaethau cyflogi);
- unrhyw Awdurdod Lleol yn rhinwedd eu swyddogaeth fel awdurdod sy'n gyfrifol am roi unrhyw drwydded, (er enghraifft mewn perthynas â gyrwyr cerbydau tacsi trwyddedig neu fasnachwyr marchnad);
- unrhyw berson sydd, neu sydd wedi bod yn ymddiriedolwr neu reolwr cynllun pensiwn personol neu alwedigaethol;
- unrhyw berson sydd neu sydd wedi bod yn rhwymedig i dalu taliad iawndal neu daliad i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 6 Deddf Nawdd Cymdeithasol (Adennill Budd-daliadau) 1997 (taliadau yng nghyswllt budd-daliadau adenilladwy); a
- gweision ac asiantiaid unrhyw berson a ddisgrifir uchod.

13 Bydd Swyddog Awdurdodedig yn ysgrifennu yn unig at y bobl hynny a ddiffinnir uchod am wybodaeth os oes ganddynt sail rhesymol i amau fod twyll budd-daliadau yn cael, neu wedi cael, ei gyflawni. Byddant yn darparu hysbysiad ysgrifenedig sy'n datgan:

- pwy ydynt;
- eu cyfeiriad;
- pa wybodaeth maent ei hangen;
- y fformat y dymunant i'r wybodaeth gael ei darparu ynddo; a
- phryd yr hoffent dderbyn yr wybodaeth.

14 Gallant ofyn am ddogfennau gwreiddiol, llungopïau o ddogfennau neu ddarnau o ddogfennau (er enghraifft allbrintiadau cyfrifiadur ac ati). Fodd bynnag, byddant yn gofyn yn unig am yr wybodaeth maent ei hangen a byddant yn cymryd i ystyriaeth y baich y byddai hyn yn ei roi ar y busnes, yn ogystal â'u hanghenion eu hunain.

Y dyletswydd cyfreithiol i ddarparu gwybodaeth y gofynnir amdani gan hysbysiad ysgrifenedig

15 Os bydd Swyddog Awdurdodedig yn ysgrifennu i ofyn am wybodaeth, mae derbynwyr yr hysbysiad dan orfodaeth cyfreithiol, o dan adran 109B(3) Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992, i'w darparu, ar y ffurf y gofynnwyd amdani ac o fewn yr amser a ragnodir.

16 Os yw derbynnydd cais o'r fath yn ei chael yn anodd i gwrdd ag unrhyw rhan o gais am wybodaeth, gallant gysylltu â'r Swyddog Awdurdodedig er mwyn egluro pam, a gwneud trefniadau amgen ar gyfer darparu'r wybodaeth.

17 Ni yw'r dyletswydd cyfreithiol i ddarparu gwybodaeth wedi'i fodloni tan y derbyniwyd yr wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Ceisiadau llafar am wybodaeth trwy ymweliad

18 O dan adran 109C, gall Swyddog Awdurdodedig geisio cael mynediad i unrhyw eiddo, (gan gynnwys cartref) lle ceir sail rhesymol i amau y gweithredir busnes neu fasnach. Caniateir iddynt, yn ogystal, fynd i mewn i unrhyw eiddo (gan gynnwys cartref) lle ceir sail rhesymol i amau y cedwir dogfennau yng nghyswllt masnach neu fusnes.

19 Gall Swyddog Awdurdodedig hefyd ymofyn am fynediad i unrhyw eiddo:

- o lle caiff cynllun pensiwn personol neu alwedigaethol ei weinyddu, neu lle cedwir dogfennau yng nghyswllt gweinyddu cynllun o'r fath; a
- lle gellir canfod person, neu rywun sy'n gweithredu ar eu rhan, sydd wedi talu iawndal yng nghyswllt damwain, anaf neu glefyd.

20 Gwneir ceisiadau i fynd i mewn i eiddo o'r fath yn unig lle mae gan y Swyddog Awdurdodedig sail resymol i amau y cyflawnir, neu y cyflawnwyd twyll budd-daliadau gan un person neu fwy.

21 Pan yn ymweld ag eiddo, bydd y Swyddog Awdurdodedig yn dweud pwy ydynt ac yn dangos eu tystysgrif awdurdodi a'u cerdyn adnabod.

22 Mae'r awdurdodiad yn caniatáu i'r swyddog fod ag unrhyw berson neu bersonau eraill gydag ef fel y gwêl yn dda, at bwrpas eu hymweliad. Os daw pobl eraill gyda'r Swyddog Awdurdodedig, byddant yn dweud pwy ydynt, a byddant yn cario dogfen adnabod, a gyflwynir i'w harchwilio.

23 Yn gyffredinol, bydd Swyddogion Awdurdodedig yn rhoi rhybudd o flaen llaw o'u bwriad i ymweld. Mewn rhai amgylchiadau nid yw hyn bob amser yn addas, a gellir ymweld heb roi gwybod o flaen llaw.

24 Bydd Swyddogion Awdurdodedig a'r rheiny sy'n dod gyda hwy, yn mynd i mewn i eiddo, ac yn aros yno, yn unig os caniateir iddynt wneud (hynny yw, gyda chaniatâd oddi wrth y perchennog, y deiliad, neu eu cynrychiolydd). Ni fyddant fyth yn ceisio cael mynediad trwy rym – nid oes ganddynt rymoedd cyfreithiol i wneud hynny. Os, ar ôl iddynt gael eu caniatáu i ddod i mewn, y gofynnir i'r swyddogion adael cyn iddynt gwblhau eu hymholiadau, byddant yn gwneud hynny. Fodd bynnag, lle mae Swyddog(ion) Awdurdodedig yn ystyried y gwnaethpwyd y fath beth er mwyn rhwystro eu hymholiadau neu er mwyn cuddio tystiolaeth, byddant yn ystyried dwyn achos troseddol.

25 O dan adran 111 Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992, mae'n drosedd i arafu neu rwystro Swyddogion Awdurdodedig yn fwriadol wrth iddynt arfer eu grymoedd o dan y Ddeddf hon (gweler paragraffau 30-35).

26 Pan yn ymweld ag eiddo, gall Swyddog Awdurdodedig ac unrhyw berson sy'n dod gyda hwy, archwilio'r eiddo a holi, gyda chaniatâd y perchennog, y deiliad, neu eu cynrychiolydd, unrhyw un y byddant yn dod o hyd iddynt yno. Nid oes ganddynt y grym i gadw pobl.

27 Gall y Swyddog Awdurdodedig fynnu bod unrhyw un yn yr eiddo yn dangos dogfennau, gwneud llungopïau o ddogfennau neu ddetholiadau o ddogfennau, neu greu allbrintiadau cyfrifiadur neu o fathau eraill. Bydd Swyddog Awdurdodedig yn gofyn yn unig am weld cofnodion yr ystyrir eu bod mewn perthynas â thaliadau a manylion cyflogi, ynghylch gweithwyr, isgontractwyr, y rheiny sy'n derbyn taliadau comisiwn ac ati.

28 Os yw'n hollol angenrheidiol (er enghraifft oherwydd nad oes llun gopïwr ar gael), gall y Swyddog Awdurdodedig gludo dogfennau ymaith yn gyfreithlon o'r eiddo yr ymwelwyd ag ef. Bydd y Swyddog Awdurdodedig yn egluro pam fod angen gwneud hyn. Caiff unrhyw ddogfennau gwreiddiol a gludir ymaith eu dychwelyd cyn gynted ag y bo modd. Rhoddir derbynneb am unrhyw ddogfennau sy'n rhaid eu cludo ymaith dros dro.

29 Ni chaiff dogfennau eu cipio a'u cludo trwy rym. Eir â hwy ymaith yn unig gyda chaniatâd.

Y dyletswydd statudol i ddarparu gwybodaeth

30 Nid yw'n ofynnol i neb ddarparu gwybodaeth (p'un ai ar ffurf dogfen neu fel arall) sy'n tueddu i daflu bai arnynt, neu, os ydynt wedi priodi/yn bartneriaid sifil, ar eu cymar neu bartner sifil.

31 Fel arall, pan wneir cais gan Swyddog Awdurdodedig, p'un ai mewn ysgrifen neu yn llafar wyneb yn wyneb, mae dyletswydd statudol yn bodoli i ddarparu'r wybodaeth honno, gan gynnwys unrhyw ddogfennaeth y gofynnir amdani.

32 O dan adran 111 Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 mae'n drosedd i:

- arafu neu rwystro Swyddogion Awdurdodedig yn fwriadol tra'u bod yn arfer eu grymoedd; neu
- wrthod, neu beidio ag
  - ateb unrhyw gwestiynau
  - darparu unrhyw wybodaeth
  - dangos unrhyw ddogfennau

pan gofynnir i chi wneud hyn gan Swyddog Awdurdodedig.

Ni chaiff gwrthod darparu gwybodaeth yn y dechrau (gan gynnwys tynnu'r caniatâd i aros ar yr eiddo i wneud ymholiadau yn ôl – gweler paragraff 24) ei ystyried fel arafu neu rwystro bwriadol, lle gwrthodir er mwyn ymofyn am gyngor annibynnol (gweler paragraff 41) cyn ymateb. Dylid nodi fod rhwystro yn cynnwys amgylchiadau lle darparir gwybodaeth anwireddus neu anghywir fel ymateb i ymholiadau.

33 Ni thorrir Deddf Diogelu Data 1998 trwy ddarparu'r wybodaeth a ofynnir amdani gan Swyddogion Awdurdodedig. O dan adran 35(1) Deddf Diogelu Data 1998, mae eithriad rhag y darpariaethau peidio â datgelu yn bodoli lle mae darpariaeth statudol, fel adran 109B(1) neu 109C Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992, yn gofyn am gyflenwi gwybodaeth.

34 Gallai methu â bodloni ceisiadau am wybodaeth yn llawn ddwyn erlyniad troseddol yn ei sgìl. Y gosb uchaf yw dirwy, wedi'i gosod ar lefel 3, sydd yn dod i £1,000 ar hyn o bryd, gyda chosb sy'n mynd yn ei blaen o £40 y dydd (o dan adran 111(2) Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992).

35 Os na ddarparir gwybodaeth, dylai'r Swyddog Awdurdodedig egluro grymoedd statudol yr AGP ac Awdurdodau Lleol o dan Adrannau 109B(1) a 109B(2) a 109C(3) Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992, a chanlyniadau potensial peidio â chydymffurfio.

Ar ddiwedd ymholiadau AGP/Awdurdodau Lleol

36 Lle gwnaeth Swyddog Awdurdodedig ymholiadau, a chaffael gwybodaeth, rhoir hysbysiad o unrhyw weithredu pellach a wneir yng nghyswllt y cyflogwr cyn gynted ag y bo modd. Pan gafodd yr ymholiad ei gwblhau, rhoir hysbysiad yn ogystal o hynny.

Cwynion

37 Os oes gennych sail i gwyno o gwbl ynghylch sut mae Swyddogion Awdurdodedig wedi arfer eu grymoedd o dan adrannau 109B(1) a 109C, neu resymoldeb eu hymddygiad, pan yn caffael gwybodaeth, byddwch gystal ag ysgrifennu at y Rheolydd Twyll AGP yn y swyddfa lle mae'r swyddogion hynny wedi'u lleoli. Yn achos Awdurdodau Lleol byddwch gystal ag ysgrifennu at Reolwr Twyll Budd-daliadau yr Awdurdod Lleol.

38 Gellir ddatrys y rhan fwyaf o gwynion trwy gysylltu â'r rheolydd lleol yn y modd hwn, a dyma'r dull mwyaf effeithiol o gywiro'r mater. Fodd bynnag, os yw'r gwyn yn fwy difrifol, dylid ei chyfeirio naill ai i Reolydd Twyll Ardal yr AGP neu, ar gyfer cwynion ynghylch ymholiadau Awdurdod Lleol, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol.

39 Mae Awdurdodau Lleol yn gyrff statudol annibynnol gyda chyfrifoldeb am weinyddu Budd-dâl Tai a Budd-dâl Treth Gyngor. Mae gan bob awdurdod ei fecanwaith ei hun ar gyfer ymdrin â chwynion ynghylch sut bydd yn gweithredu. Os yw'r gwyn yn ymwneud â sut y defnyddiodd Swyddog Awdurdodedig yr Awdurdod Lleol ei rymoedd, dylid cyfeirio at y weithdrefn gwynion y mae gan bob Awdurdod Lleol yn ei lle.

40 Os nad yw hyn yn darparu canlyniad boddhaol, caiff y gwyn ei hanfon ymlaen i Strategaeth a Chynllunio Twyll, a fyddant yn anfon ateb cyn gynted ag y bo modd. Anfonir cydnabyddiaeth y derbyniwyd y gwyn o fewn 10 diwrnod gwaith. Gall Strategaeth a Chynllunio Twyll ymofyn am gyngor cyfreithiol cyn ateb yn llawn. Mae eu cyfeiriad fel a ganlyn:

Strategaeth a Chynllunio Twyll
Quarry House
Leeds
LS2 7AU

41 Gellir ymofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol unrhyw bryd. Gall y Ganolfan Gynghori leol helpu yn y gwaith o benderfynu pwy i gysylltu â nhw. Gellir canfod eu lleoliadau a'u rhifau teleffon yn y llyfr ffôn lleol.

42 Nid yw hyn yn effeithio ar y hawl i ymofyn am gymorth oddi wrth Aelod Seneddol, neu i gyfeirio cwyn i Ombwdsman am ystyriaeth annibynnol.

Cwynion i'r Ombwdsman

43 Gellir cyflwyno cwynion yng nghyswllt ymholiadau a wnaethpwyd gan Swyddogion Awdurdodedig Canolfan Byd Gwaith i'r Ombwdsman Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd, a elwir yn gyffredin yr 'Ombwdsman'. Mae'r Ombwdsman yn ymdrin â chwynion ynghylch camweinyddu gan gyrff cyhoeddus. Rhaid cyflwyno cwyn trwy gyfrwng eich Aelod Seneddol.

44 Mae'r Ombwdsman yn ceisio sefydlu p'un ai yw corff cyhoeddus wedi gweithredu mewn dull cywir a theg wrth roi ei ddehongliad o'r gyfraith ar waith. Gall achosion i'w harchwilio gynnwys y rheiny lle'r honnir fod awdurdod cyhoeddus wedi gwneud rhywbeth yn y dull anghywir, wedi gwneud rhywbeth na ddylent, neu wedi methu â gwneud rhywbeth y dylent fod wedi'i wneud.

45 Gall yr Ombwdsman argymell amrywiaeth o ddulliau o unioni'r sefyllfa, gan gynnwys talu iawndal i'r rheiny sy'n cwyno ac adolygu, ymlynu wrth neu eglurhau, gweithdrefnau gweinyddol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael oddi wrth:

Yr Ombwdsman Seneddol a Gwasanaeth Iechyd
Mill Tower
Mill Bank
Llundain SW1P 4QP
Llinell gymorth deleffon: 0845 015 4033
Ffacs: 020 7217 4000
E-bost: phso.enquiries@ombudsman.org.uk

46 Dylid cyfeirio cwynion yng nghyswllt ymholiadau a wnaethpwyd gan Swyddogion Awdurdodedig yr Awdurdod Lleol i'r Ombwdsman Llywodraeth Leol/Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r Ombwdsmyn yn ymchwilio i gwynion o anghyfiawnder sy'n deillio o gamweinyddu gan Awdurdodau Lleol a chyrff penodol eraill. Mae tri Ombwdsman Llywodraeth Leol yn Lloegr, Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Sgotaidd ac Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus dros Gymru. Maent ill tri yn ymdrin â chwynion o rannau gwahanol o'r wlad. Gellir caffael rhagor o wybodaeth oddi wrth:

Lloegr

Ar gyfer bwrdeistrefi Llundain i'r gogledd o Dafwys (gan gynnwys Richmond ond nid Harrow na Tower Hamlets), Essex, Caint, Dwyrain Sussex, Gorllewin Sussex, Surrey, Berkshire, Buckinghamshire, Hertfordshire, Suffolk a Dinas Coventry:

Ombwdsman Llywodraeth Leol
10ed Llawr. Millbank Tower
Mill Bank
Llundain SW1P 4QP
Ffôn: 020 7217 4620
E-bost: enquiries@lgo.org.uk

Ar gyfer Bwrdeistref Llundain Tower Hamlets, Dinas Birmingham, Solihull MBC, Swydd Gaerlleon, Derbyshire, Nottinghamshire, Lincolnshire, Warwickshire a Gogledd Lloegr (ar wahân i ddinasoedd Caerhirfryn, Manceinion a Chaerefrog):

Ombwdsman Llywodraeth Leol
Beverley House
17 Shipton Road
Caerefrog YO30 5FZ
Ffôn: 01904 380200
E-bost: enquiries@lgo.org.uk

Ar gyfer bwrdeistrefi Llundain i'r de o Dafwys (ar wahân i Richmond) a Harrow: dinasoedd Caerhirfryn, Manceinion a Chaerefrog; ac ardaloedd o Loegr na rychwantwyd mohonynt eisoes:

Ombwdsman Llywodraeth Leol
The Oaks Rhif 2
Westwood Way
Parc Busnes Westwood
Coventry CV4 8JB
Ffôn: 024 7682 0000
E-bost: enquiries@lgo.org.uk

Yr Alban

Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban
4 Melville Street
Caeredin EH3 7NS
Ffôn: 0800 377 7330
E-bost: ask@spso.org.uk

Cymru

Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus dros Gymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Court Road
Pencoed CF35 5LJ
Ffôn: 01656 641 150
E-bost: enquiries@ombudsman-wales.org

Ymwadiad

Dylech nodi mai cyfarwyddyd cyffredinol yn unig a roddir yn y Côd Arfer hwn ac ni ddylid ei ystyried fel datganiad llawn ac awdurdodol o'r gyfraith. Os nad ydych yn deall unrhyw ran o gynnwys y Côd, hwyrach y byddwch yn dymuno ymofyn am gyngor annibynnol.

Mae'r Côd Arfer hwn ar gael yn ogystal i aelodau o'r cyhoedd trwy'r Adran Gwaith a Phensiynau a swyddfeydd awdurdodau lleol ac ar wefan yr Adran Gwaith a Phensiynau www.dwp.gov.uk, os yw unrhyw un yn dymuno canfod mwy ynghylch ein grymoedd i gaffael gwybodaeth o dan y darpariaethau yn adrannau 109B a 109C Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992

Côd cynnyrch: AO1
Cynhyrchwyd gan Canolfan Byd Gwaith

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

Argraffwyd gan Belmont Press Cyf. Rhifyn 2.04/08